# PENNOD 5

## <u>Trafodaeth</u>

O’r ystadegau a gasglwyd o’r ymatebion i Gwestiynau 1-10, ymddengys i fwyafrif y rhieni ddewis ysgol gynradd i’w plant heb dderbyn, na chwilio am wybodaeth swyddogol am ysgolion na chyfrwng addysg. Er mai nifer fach o rieni a holwyd yn yr ymchwil hwn, mae perthnasedd y canlyniadau o fewn yr AALl sydd dan ystyriaeth yn sylweddol. Gellid honni ei bod hi’n bosibl y gallai canran uchel o rieni eraill ar draws y sir fod yn seilio eu dewis o ysgol gynradd a chyfrwng addysg ar ffactorau heblaw manteision y gwahanol ddarpariaethau ieithyddol.

O’r rhieni (22: 24%) a dderbyniodd wybodaeth ar ddewis cyfrwng addysg cyn i’w plant ddechrau yn yr ysgol, dewisodd 16 (73%) addysg cyfrwng-Cymraeg. Awgryma hynny y gall gwybodaeth swyddogol ar fanteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng-Cymraeg ddylanwadu ar ddewis rhieni o ysgol.

At hyn ymddengys y gallai gwybodaeth swyddogol ar berfformiad academaidd ysgolion ddylanwadu ar ddewis rhieni o gyfrwng addysg. Er mai dim ond 27 o rieni a nododd mewn ymateb i Gwestiwn 18 eu bod wedi edrych ar ganlyniadau asesiadau athrawon cyn i’w plant ddechrau yn yr ysgol, nododd 47 (52.8%) y cafodd y rhain ddylanwad ‘cryf iawn’ neu’n ‘gryf’ ar eu dewis o ysgol. Rhieni A oedd 27 (57%) ohonynt. O’r 12 o rieni a gymharodd ganlyniadau TGAU ysgolion uwchradd cyn dewis ysgol gynradd i’w plant, dewisodd 11 (92%)

addysg gynradd cyfrwng-Cymraeg. Awgrymai hyn y gallai perfformiad academaidd ysgolion uwchradd y dyfodol ddylanwadu ar ddewis rhieni o ysgol gynradd.

Nododd 52 (57.8%) o rieni bod adroddiad arolygiad yr ysgol gynradd wedi dylanwadu'n 'gryf iawn' neu'n 'gryf' ar eu dewis o ysgol. Fodd bynnag, roedd Pennaeth B o'r farn na châi hynny ddylanwad cryf ar ddewis rhieni o'i ysgol ef, tra nododd y ddau bennaeth arall mai rhieni a symudai i'r ardal oedd fwyaf tueddol i ofyn am weld adroddiad arolygiad. Awgrymai sylwadau'r penaethiaid yn gyffredinol mai ar sail ffactorau eraill megis, lleoliad, enw da'r ysgol, cyfrwng yr addysg neu ysgol gyfun y dyfodol roedd rhieni yn fwy tebygol o ddewis ysgol.

Fel y nodwyd eisoes, roedd Pennaeth A o'r farn bod llwyddiant yr ysgol uwchradd cyfrwng-Cymraeg leol i ennill saith Gradd 1 mewn arolygiad diweddar wedi dylanwadu ar ddewis rhai rhieni o gyfrwng addysg gynradd. Credai fod rhai rhieni wedi dewis addysg gynradd cyfrwng-Cymraeg er mwyn sicrhau bod eu plant yn gallu mynychu'r ysgol honno, sef Ysgol Gyfun y Strade ym Mlwyddyn 7. Awgrymai hynny y gallai adroddiad arolygiad ysgol uwchradd y dyfodol ddylanwadu ar ddewis rhieni o gyfrwng addysg gynradd, er na ellir cyffredinoli ar sail yr ymchwil hwn.

Cyn gwneud dewis terfynol, ystyriodd 25 (27.5%) o'r sampl osod eu plant mewn addysg cyfrwng dysgu gwahanol (Cwestiwn 16).  Ffactorau megis diffyg gwybodaeth (fel yr adlewychwyd mewn gosodiadau megis '*my daughter was already learning two languages so we thought the third would be too confusing'* , Ysgol B), neu'r ffaith na fyddai rhieni yn gallu helpu'u plant gyda'u gwaith cartref ('*would not have been able to support her with any homework/coursework',* Ysgol Cb), a rwystrodd lawer o rieni di-Gymraeg rhag ystyried neu osod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg.

Ystyriodd 14 (25%) o Rieni A osod eu plant mewn addysg cyfrwng-Saesneg.   Awgrymai rhai o'u sylwadau i Gwestiwn 17 y gallai cwrdd â phennaeth yr ysgol ddylanwadu ar eu dewis o gyfrwng addysg. Ysgrifennwyd y sylwadau isod gan ddau o rieni Ysgol C.

- '*as non Welsh speakers we were reassured our child would have full help and support in learning Welsh'*
- '*Headteacher came for a chat when he [the child] was 2. ...Reassurance that, despite English speaking family, he would be fine*.'

Mae'n bosib bod gan Bennaeth Ysgol C, well cyfle, o gymharu â Phennaeth A, i sôn wrth rieni am fanteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng-Cymraeg.  Gan fod Ysgol C yn ysgol dwy ffrwd, roedd gan y pennaeth gyfle i gwrdd â rhieni nad ystyriodd addysg cyfrwng-Cymraeg i'w plant yn flaenorol.  Oni bai bod rhieni wedi ystyried y posibilrwydd o

osod eu plant yn Ysgol A eisoes, mae'n annhebyg y deuai Pennaeth A i gysylltiad â rhieni tebyg.  O ganlyniad, ymddengys y gallai cyfleodd Pennaeth A i addysgu rhieni am fanteision addysg ddwyieithog fod yn fwy cyfyngedig na chyfleoedd Pennaeth C.

Ymddengys fod rhesymau Rhieni A dros ddewis addysg cyfrwng-Cymraeg i'w plant yn dueddol o fod yn seiliedig naill ai ar gymhelliant integreiddiol, megis, meithrin hunaniaeth (*'to grow up proud of national language and Welsh heritage and culture'),* neu gymhelliant cyfryngol, megis sicrhau gwell cyfleodd gyrfaol yn y dyfodol (*'better opportunities in future').*  Tueddai rhesymau Rhieni B dros ddewis addysg cyfrwng-Saesneg fod yn seiliedig ar bryderon rhieni ynglŷn ag anallu i helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol, a'r gred y byddai eu Saesneg yn dioddef petaent yn mynychu ysgol cyfrwng-Cymraeg.  Adlewyrcha'r canlyniadau hyn ganlyniadau gwaith ymchwil Packer a Campbell (1997).  Nodir pryderon tri o Rieni B isod:

- '*coming from an entirely English speaking family, would prefer my daughter to be in middle/top streams in English as opposed to bottom in Welsh'*
- *'...would rather her excel in English, as opposed to struggle in Welsh*'
- '*Wanted them to be proficient in English...'*

Dengys y data a gasglwyd mewn ymateb i Gwestiwn 15 bod nifer o wahanol ffactorau wedi dylanwadu (i wahanol raddau) ar ddewis rhieni o ysgol. Enw da'r ysgol (81: 90.1%), cyfrwng yr addysg (75: 82.4%) a lleoliad yr ysgol (66: 72.6%) oedd y tri ffactor a ddylanwadodd gryfaf ar y nifer mwyaf o rieni. Adlewyrchai'r canlyniad hwnnw yr ymatebion a gafwyd i Gwestiwn 14, a ofynnodd i rieni nodi'r prif reswm y seiliwyd eu dewis o ysgol neu'r ffrwd arno.

Gwelwyd gwahaniaethau ym mhrif rhesymau'r rhieni yn ôl dewis o gyfrwng addysg (Tabl 20). Nodwyd lleoliad yr ysgol gan ganran uwch o Rieni B (36%) na Rhieni A (16%). Awgrymai hynny, a'r ffaith bod nifer uwch o Rieni A yn byw yn bellach o'r ysgol (Cwestiwn 11), ei fod yn debygol eu bod wedi dewis ysgol ar sail ffactorau heblaw lleoliad. Ymddengys bod Rhieni A yn fwy parod i deithio ymhellach er mwyn sicrhau bod eu plant yn derbyn eu haddysg mewn ysgol benodol. Nododd un rhiant nad oedd am i'w phlentyn fynd i'r ysgol leol am mai ysgol dwy ffrwd oedd hi. Er mwyn cael lle i'w phlentyn yn Ysgol A bu'n rhaid iddi ennill achos apêl. Roedd y rhiant hwn, felly, yn hapus i deithio ymhellach er mwyn i'w phlentyn fynychu ysgol benodedig Gymraeg.

Cafodd 'cyfrwng yr addysg' ei nodi fel prif reswm gan ganran uwch o Rieni A (17%) na Rhieni B (2%). Gellir disgwyl i rieni sydd am i'w plant siarad Cymraeg yn rhugl, ac/neu sy'n credu bod manteision mewn bod yn ddwyieithog, osod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg. Er

hynny, nododd 17 (49%) o Rieni B eu bod yn ‘cytuno’n gryf’ neu’n ‘cytuno’ â’r gosodiad, ‘*Hoffwn i’m plentyn allu siarad Cymraeg yn rhugl’* (Cwestiwn 31), a nododd 26 (72%) ohonynt eu bod yn credu bod manteision mewn bod yn ddwyieithog (Cwestiwn 27).

Credai mwyafrif y rhieni (78) bod manteision mewn bod yn ddwyieithog. Yn ôl y dewis o gyfrwng addysg y plant, ymddangosai fod Rhieni A yn fwy ymwybodol na Rhieni B o’r manteision a ddeuai o fod yn ddwyieithog (Tabl 46). Fodd bynnag, adlewyrchai’r ymatebion a gafwyd i Gwestiwn 49 ddiffyg ymwybyddiaeth o holl fanteision dwyieithrwydd. Nododd nifer uwch o rieni (49) fanteision economaidd o gymharu a manteision eraill dwyieithrwydd (Tabl 47). Awgrymai hynny na chaiff holl fanteision dwyieithrwydd eu hyrwyddo’n ddigonol o fewn yr AALl nac ychwaith gan y llywodraeth yn genedlaethol.

Yn ôl data a gasglwyd mewn ymateb i Gwestiwn 30 Datganiad 2, ymddengys nad oedd pob rhiant yn ymwybodol o’r gwahaniaethau ieithyddol rhwng ysgolion nac yn y dulliau addysgu na’r deilliannau ieithyddol wrth ddewis ysgol i’w plant. Credai 5 (14%) o Rieni B fod y datganiad ‘*Mae’r holl ysgolion yng Nghymru yn galluogi disgyblion i fod yn siaradwyr Cymraeg cwbl rhugl’* yn wir. Nid wyddai 16 (17%) o rieni a oedd y datganiad yn wir neu’n gau. O’r rheiny, perthynai 10 ohonynt i garfan Rhieni B.

Ymddangosai fod Rhieni A yn fwy ymwybodol na Rhieni B o nodau ieithyddol yr ysgol a ddewiswyd ganddynt i'w plant. Nodwyd y sylwadau isod gan Rieni A (ychwanegwyd llythrennau bras);

> *'..., and wanted him to **learn** the Welsh language'* (Ysgol *A)*
>
> '*Eisiau i'r plentyn fod yn **ddwyieithog***' (Ysgol A)
>
> *'wanted children to speak **fluent Welsh'*** (Ysgol A)
>
> *'Want child to be **bilingual'*** (Ysgol A)

Dywedodd Pennaeth A fod pob rhiant yn ei ysgol yn ymwybodol mai dwyieithrwydd oedd y nod ieithyddol ac mai dyna oedd un o'r prif ffactorau, os nad y prif ffactor, pam y dewisai rhieni i osod eu plant yn yr ysgol honno. Esboniodd un o garfan Rhieni B pam na wnaeth hi ystyried ysgol cyfrwng Cymraeg i'w phlentyn: '*I'd rather my child be taught in a bi-lingual school rather than be too restricted to just one language'* (Ysgol B). Rhaid gofyn i ba raddai y cafodd y rhiant hwn ei gamarwain gan y term 'addysg ddwyieithog'?

Gall defnyddio'r term 'addysg ddwyieithog' i ddisgrifio ysgol lle addysgir y Gymraeg fel pwnc yn unig gamarwain rhieni. Er bod 'Datblygu'r Gymraeg' erbyn hyn yn un o ddeiliannau dysgu y Cyfnod Sylfaen, ymddengys nad dwyieithrwydd efallai fydd y nod ieithyddol i bawb. Mae'n bwysig, felly, bod rhieni yn ymwybodol o'r ffaith nad yw pob math o ddarpariaeth ddwyieithog yn sicr o greu siaradwyr dwyieithog, ac os mai dwyieithrwydd yw'r nod, bod angen dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cadarnhawyd hyn mewn cyfweliad â Phennaeth B, a gyfeiriai rhieni oedd am i'w plant siarad Cymraeg yn rhugl at Bennaeth

Ysgol A.   Ymddengys, felly, nad dwyieithrwydd cytbwys ac ymarferol yw deilliant ieithyddol ysgolion Categori 2.

Nid oedd pob rhiant yn ymwybodol o bolisi iaith y llywodraeth (Cwestiwn 30).  Gosododd 11 (46%) o'r rhieni a nododd bod polisi'r llywodraeth ganol wedi dylanwadu'n 'gryf iawn' neu'n 'gryf' ar eu dewis o ysgol, eu plant mewn addysg cyfrwng-Saesneg.  Awgrymai hynny, fel y soniwyd eisoes, na chafodd polisi'r llywodraeth unrhyw ddylanwad ar eu dewis o ysgol mewn gwirionedd.  Nododd 9 (10%) o rieni eu bod yn credu bod Datganiad 1 Cwestiwn 30 (a oedd yn ymwneud â dymuniad LlCC i Gymru fod yn genedl ddwyieithog), yn gau, tra nododd 36 (39%) arall nad oeddent yn gwybod.   Awgrymai hynny bod angen marchnata polisi iaith y llywodraeth yn fwy dygn ac egnïol er mwyn i bobl ddod yn ymwybodol o bwysigrwydd cynyddol dwyieithrwydd.

Nododd 44 (79%) o Rieni A bod ysgol gyfun y dyfodol wedi dylanwadu'n gryf ar eu dewis o ysgol gynradd o gymharu â 13 (36%) o Rieni B (Cwestiwn 15).  Cafwyd nifer uwch o Rieni A (54: 96%) na Rhieni B (25: 69%) yn nodi pa ysgol gyfun y byddai eu plant ym mynychu ym Mlwyddyn 7 (Cwestiwn 20). Ysgol Gyfun y Strade oedd dewis pob un o Rieni A.  Gan mai ysgol gyfun cyfrwng-Cymraeg yw Ysgol y Strade, ymddangosai fod cyfrwng addysg ysgol gyfun y dyfodol wedi dylanwadu ar ddewis ysgol gynradd canran uchel o Rieni A.  Nid oedd 9 (25%) o Rieni B o gymharu â 2 (4%) o Rieni A wedi penderfynu

eto i ba ysgol gyfun y byddai eu plant yn mynychu ym Mlwyddyn 7. Nododd un rhiant '*not yet decided, still 7 yrs to go'* (Ysgol B). Ymddengys felly, nad oedd pob rhiant wedi meddwl am ysgol uwchradd y dyfodol wrth 'ddewis' ysgol gynradd.

Gwelwyd bod perthynas rhwng cyfrwng addysg y plant a sgiliau ieithyddol y rhieni. Roedd canran uwch o Rieni A (54%) yn ddwyieithog neu'n amlieithog o'i chymharu â chanran Rhieni B (19%). At hyn, o'r rhieni (12) a nododd i'r ffaith eu bod nhw'n ddwyieithog ddylanwadu ar eu dewis o ysgol, dewisodd pob un ysgol cyfrwng-Cymraeg i'w plant (Cwestiynau 25 a 26). Gwelwyd perthynas hefyd rhwng sgiliau Cymraeg y rhieni a'r dewis o gyfrwng addysg i'w plant. Dewisodd 28 (90%) o'r rhieni a allai siarad Cymraeg addysg cyfrwng-Cymraeg. Er na ellir cyffredinoli ar sail yr ymchwil cyfyngedig hwn, awgryma hynny efallai bod rhieni sydd yn medru siarad Cymraeg yn fwy tebygol o osod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg nag addysg cyfrwng-Saesneg yn Sir Gâr. Er hynny, ni ellir hawlio bod Cymry-Cymraeg yn fwy tebygol o osod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg na rhieni di-Gymraeg gan mai rhieni di-Cymraeg oedd 28 (50%) o Rhieni A.

O'r ymatebion a gasglwyd i Gwestiwn 23, ymddangosai y defnyddiai 15 (27%) o Rieni A y Gymraeg fel prif iaith gyfathrebu gartref. Dim ond 9 (16%) o Rieni A a nododd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn unig. Saesneg oedd prif iaith cyfathrebu 25 (46%) o Rieni A gartref a

defnyddiai 23 (27%) o Rieni A y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Saesneg yn unig neu yn bennaf a ddefnyddid gan 89% o Rieni B i gyfathrebu â'u plant gartref.

Gwelwyd perthynas hefyd rhwng dewis rhieni o gyfrwng addysg a'u cymwysterau academaidd. Roedd gan ganran uwch o Rieni A radd gyntaf neu gymhwyster ôl-radd (32.1% a 21.4%) o gymharu â Rhieni B lle honnai 13.9% o rieni bod ganddynt radd gyntaf a 16.7% gymhwyster ôl-radd (Cwestiwn 33). Unwaith eto, er na ellir cyffredinoli ar sail sampl cyfyngedig yr ymchwil hwn, mae'n bosibl bod rhieni sydd â lefel uwch o addysg yn fwy ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd ac, o ganlyniad, yn fwy ymwybodol o fanteision ieithyddol darpariaeth cyfrwng-Cymraeg.

Mewn nifer fawr o ardaloedd ar draws Cymru ni ddarperir addysg cyfrwng-Cymraeg yn 'lleol'. Golyga hyn fod rhaid i rieni sydd ag ymrwymiad cryf i'r iaith deithio i bentref arall neu i'r dref agosaf er mwyn sicrhau bod eu plant yn derbyn addysg cyfrwng–Cymraeg effeithiol. O safbwynt y sampl o rieni yn yr ymcwhil hwn, yr oedd gan bob un fynediad i addysg cyfrwng-Cymraeg. Yn hytrach na diffyg mynediad i addysg cyfrwng-Cymraeg felly, ffactorau eraill, a barodd i Rieni B osod eu plant mewn addysg cyfrwng-Saesneg.

Awgrymai'r atebion a gafwyd i Gwestiwn 29 nad oedd gan bob rhiant a ddewisodd addysg cyfrwng-Cymraeg ymrwymiad cryf i'r iaith. Nododd

7 o rieni Ffrwd A Ysgol C y byddent wedi parhau i osod eu plant yn Ysgol C pe byddai'r ysgol yn ysgol cyfrwng-Saesneg yn unig. Mae'n debygol iawn felly, i'r rhieni hynny osod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg oherwydd y 'cyfle' iddynt wneud hynny yn hytrach na phenderfyniad pendant ymlaen llaw.

Yn ogystal â bod dewis cyfrwng addysg ar gael yn lleol, mae'n bwysig bod ysgolion yn medru ateb y galw. Y rheswm pam na osododd un rhiant ei blentyn yn Ysgol A oedd oherwydd nad oedd lle yn yr ysgol honno. Yn hytrach na gosod ei blentyn mewn ysgol cyfrwng-Cymraeg gyfagos, dewisodd osod ei blentyn yn Ysgol B. Awgrymai hynny fod rhai plant yn colli'r cyfle i gael addysg cyfrwng-Cymraeg, nid oherwydd bod yr AALl wedi methu â chynnig lle i'r plentyn mewn ysgol cyfrwng-Cymraeg, na bod y rhieni yn erbyn addysg cyfrwng-Cymraeg, ond, yn hytrach, oherwydd nad yw ymrwymiad y rhieni i'r iaith yn ddigon cryf. O ganlyniad, ymddengys, mewn rhai achosion, y gallai cyfrwng addysg plant gael ei benderfynu ar sail yr hyn sy'n gyfleus i'r rhieni.

# PENNOD 6

## Argymhellion

Seiliwyd yr ymchwil hwn ar arolwg o'r hyn a fu wrth wraidd penderfyniadau rhieni wrth ddewis cyfrwng addysg gynradd i'w plant mewn un ardal yn Sir Gaerfyrddin.  Ysgogwyd yr ymchwil gan y cyd-destun gwleidyddol presennol a'r cynlluniau a fabwysiedir gan LlCC ar hyn o bryd i greu gwlad ddwyieithog.  Pwysleisiwyd yn gyson yn nogfennau swyddogol LlCC pa mor bwysig a chreiddiol yr ystyrid swyddogaeth y gyfundrefn addysg Gymraeg yn y cynlluniau hynny gyda'r bwriad i gynyddu nifer y plant a allai gael eu dwyieithogi drwy fanteisio ar yr addysg honno.  Cam rhesymegol, felly, yw hawlio mai ar rieni sydd yn gosod eu plant yn y gyfundrefn addysg am y tro cyntaf y mae angen ffocysu os bwriedir sicrhau'r cynnydd angenrheidiol hwnnw. Mae darganfod gwybodaeth berthnasol drwy archwilio'r ffactorau hynny a all effeithio ar ddewis rhieni o gyfrwng addysg i'w plant yn greiddiol i greu unrhyw newid ieithyddol a ddymunir gan y llywodraeth.

Dengys yr ymchwil hwn bod ffactorau dylanwadol amlwg wedi bod ar waith wrth i rieni ddewis cyfrwng addysg neu ysgol gynradd i'w plant mewn ardal yn Sir Gaerfyrddin.  Beth bynnag, ar sail y data a gasglwyd trwy gyfrwng arolwg o rieni'r tair ysgol, yr hyn a ddadansoddwyd ym Mhennod 4 ac a drafodwyd ymhellach ym Mhennod 5, gwelwyd sut y gallai'r ffactorau hynny weithredu o blaid ac yn erbyn y dewis o addysg cyfrwng-Cymraeg.  Os disgwylir newid i ddigwydd yn y gyfundrefn

addysg gynradd felly a all sicrhau cynnydd pellach yn nifer y plant a all siarad Cymraeg, ymddengys y bydd angen hefyd i sicrhau newid meddylfryd ymhlith y rhieni hynny sydd, ar hyn o bryd, yn penderfynu peidio â gosod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg. Bydd sicrhau'r newid angenrheidiol yn hawlio gweithredu strategaethau penodol ar sawl lefel. Ar sail canlyniadau'r gwaith ymchwil presennol felly, argymhellir bod rhaid gweithredu'r rheiny ar dair lefel:

a) y llywodraeth ganol, sef Llywodraeth Cynulliad Cymru

b) llywodraeth leol, sef yr awdurdod addysg lleol

c) yr ysgolion unigol sydd yn darparu addysg cyfrwng-Cymraeg

a) <u>Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru</u>

Noda Williams (2005):

> '*Mae'r gyfundrefn yn arbennig o dda wrth feithrin y gallu i baratoi Cynlluniau Iaith, ond nid yw'r gyfundrefn bresennol mor effeithiol o ran arolygu a sicrhau gweithrediad cynlluniau'* (2005: 5-6).

Disgrifia Rannut y sefyllfa yn Estonia: *'... political laissez-faire in implementing educational reforms has hindered progress considerably'* (2006: 84). Ar sail yr ymatebion i Ddatganiadau 1 a 3 Cwestiwn 30, awgrymir y dylai'r llywodraeth godi lefel ymwybyddiaeth rhieni o'r nodau a amlinellir yn '*Iaith Pawb'* (LlCC, 2003) a phwysigrwydd cynyddol dwyieithrwydd yng Nghymru drwy hyrwyddo'r polisi iaith cenedlaethol.

Drwy hyrwyddo pwysigrwydd dwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg, fe godir statws yr iaith. Yn ôl Crystal:

> *'Fostering positive language attitudes is, accordingly, one of the most important initiatives to be achieved in the task of language preservation'* (2000: 81).

Er mwyn rhoi'r hyder i rieni **ddewis** addysg cyfrwng-Cymraeg yn lle addysg cyfrwng-Saesneg, awgrymir y dylid marchnata dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng-Cymraeg fel rhywbeth buddiol a manteisiol a fydd yn gaffaeliad i bob plentyn yn yr hir dymor. Edrydd Amorrotu:

> *'... sociolinguists, language planners, and educators should be able to convince our societies of the social, cultural, and even economical advantages of multilingualism, and the new possibilities that cultures in contact offer. Belonging to two linguistic communities, integrating into new ones without giving up our own, is not only possible but also more and more desirable in the global world.'* (Amorrotu, heb ei ddyddio).

Dylid hefyd hyrwyddo'r ffaith bod addysg cyfrwng-Cymraeg yn agored i bob plentyn ac nid i Gymry-Cymraeg yn unig. Nododd un rhiant mewn ymateb i Gwestiwn 16 iddi beidio â gosod ei phlant mewn ysgol Gymraeg oherwydd nad oeddent yn medru siarad yr iaith. Awgrymai hynny bod diffyg ymwybyddiaeth ymysg rhai rhieni o rhagofyniad mynediad i addysg cyfrwng-Cymraeg.

Drwy fabwysiadu dull 'empeiraidd-resymol' o greu newid, sef darparu gwybodaeth benodol am fanteision deallusol, gwybyddol ac addysgol dwyieithrwydd, gellir hyrwyddo addysg cyfrwng-Cymraeg heb greu

ymdeimlad ymysg rhieni o golli perchnogaeth ar ddewis cyfrwng addysg eu plant. Ar sail marchnata buddiannau dwyieithrwydd felly, gellid disgwyl y byddai rhieni yn manteisio ar addysg cyfrwng-Cymraeg yn hytrach na dewis cyfrwng-Saesneg. Yn absenoldeb y wybodaeth angenrheidiol honno ar hyn o bryd, gwelir rhieni yn dewis y cyfrwng Saesneg gan lesteirio nod hir dymor LlCC o greu Cymru ddwyieithog.

Ond ai creu Cymru ddwyieithog yw'r nod mewn gwirionedd? Diffinia LlCC 'Cymru ddwyieithog' fel: *'... gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith…'* (LlCC, 2003: 11). Er mwyn i berson allu byw ei fywyd yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg mae gofyn, wrth gwrs, bod pawb yn medru'r ddwy iaith. Gan na fydd gorfodaeth ar bobl i ddysgu'r Gymraeg felly, ymddengys mai gwlad 'ddiglosaidd' ac nid gwlad 'ddwyieithog' fydd y nod mewn gwirionedd; hynny yw, parhad y sefyllfa sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Datblygwyd y term 'diglosia' gan Fishman (1972) i ddisgrifio sefyllfa lle bodola dwy iaith wahanol mewn cymdeithas gydag un yn iaith 'uchel' a'r llall yn iaith 'isel'. Effaith yr amrywiaeth yn y ddarpariaeth addysgol-ieithyddol bresennol lle ceir deilliannau ieithyddol gwahanol fydd parhad cymdeithas a gwlad ddiglosaidd yn hytrach na gwlad ddwyieithog. Wrth ystyried y gyfundrefn addysg bresennol felly, y cwestiwn sydd angen ei ateb yw yr hyn a ofynnwyd gan yr Athro Colin Williams dros ugain mlynedd yn ôl: *'addysg ddwyieithog yng Nghymru ynteu addysg ar gyfer Cymru ddwyieithog'* (Williams, 1988).

b) Argymhellion ar gyfer yr awdurdod addysg lleol

Mewn cyfweliad â phenaethiaid A ac C, gofynnwyd i ba raddau y gallai'r AALl hyrwyddo addysg cyfrwng-Cymraeg ar draul addysg cyfrwng Saesneg. Barn Pennaeth A oedd bod hynny'n 'anodd iawn' yn wleidyddol. Er hynny, credai'r ddau y gellid hyrwyddo addysg Gymraeg yn fwy egnïol o fewn y sir drwy '*gario mas y polisi iaith'* (Pennaeth C) a '*gwerthu trwy farchnata manteision addysg Gymraeg a buddiannau bod yn ddwyieithog'* (Pennaeth A). Gwelir bod hyn yn adlewyrchu yr hyn a argymhellwyd uchod a ddylai ddigwydd ar lefel llywodraeth ganol. Er hynny, argymhellir ymhellach y dylai ddigwydd hefyd ar lefel llywodraeth leol yn ogystal.

Awgrymir ei bod hi'n bosib i AauALl hyrwyddo addysg cyfrwng-Gymraeg heb wneud hynny'n uniongyrchol ar draul ysgolion cyfrwng-Saesneg ac mewn modd gwleidyddol-sensitif drwy ddarparu llenyddiaeth 'gadarnhaol' bwrpasol. Er enghraifft, gallai'r AALl dan sylw gynhyrchu llyfryn tebyg i'r hyn a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir Powys gan osod canlyniadau TGAU ysgolion uwchradd ar ei wefan. Byddai hynny yn ffordd o wneud canlyniadau academaidd TGAU yn fwy hysbys a hygyrch i rieni gan dynnu sylw yn benodol at lwyddiannau academaidd ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg.

Yn achos cyd-destun yr ymchwil presennol, pe bai rhieni yn dymuno anfon eu plant i'r ysgol gyfun oedd yn cyflawni orau yn academaidd ar

sail ystadegau arholiadau allanol, byddai'n bwysig eu bod wedi dewis ysgol gynradd Gymraeg i'w plant. Y rheswm am hynny yw mai nifer fechan o bwyntiau mynediad sydd i addysg cyfrwng-Cymraeg:

> '*Ar y cyfan, mae'n bosibl dewis naill ai yn 3 oed wrth fynd i addysg feithrin, neu'n 5 oed wrth gychwyn yn yr ysgol gynradd. Yn ymarferol, unwaith y bydd rhiant, wedi dewis y sector cyfrwng Saesneg yn un o'r pwyntiau mynediad hyn, prin iawn yw'r cyfleoedd yn y rhan fwyaf o ardaloedd AALl i newid i'r sector cyfrwng-Cymraeg'* (LlCC, 2003: 4).

Er i ymchwil Williams (2002) brofi y gall plant gael eu dwyieithogi yn hwyrach drwy dderbyn addysg drochol yn yr ysgol uwchradd, anarferol yw'r ddarpariaeth honno yn gyffredinol. Adlewyrcha'r sefyllfa yng Nghymru felly, yr hyn a welir yn Estonia:

> '*For children with a non-Estonian home language, there are currently only a few entry points into Estonian-medium education system. The main educational options are the following: Estonian-medium kindergarden, an Estonian school, or an immersion programme. In addition to those, Russian-medium schooling is available, but as an education option that is unpopular, owing to the poor performance of its graduates.'*
>
> (Rannut, 2006: 84)

Mae bwysig, felly, bod rhieni'n sylweddoli canlyniadau hir dymor dewis ysgol gynradd, yn enwedig ysgol gynradd cyfrwng-Saesneg, gan fod yr opsiwn hwn, fel arfer, yn cyfyngu ar y dewis o ysgol uwchradd yn y dyfodol.

Fel y soniwyd eisoes, yn ogystal ag addysgu plant yn academaidd, mae ysgolion cyfrwng-Cymraeg yn meithrin dwyieithrwydd yn yr unigolyn. O ganlyniad, ymddengys bod allbwn cyflawn ysgolion cyfrwng-Cymraeg

yn well nag ysgolion cyfrwng-Saesneg ac, o ganlyniad, fel y noda Cummins (1986), yn fwy cost-effeithiol. Mewn cyfnod o gynni economaidd lle gosodir cymaint o bwyslais ar gost-effeithiolrwydd, mae'n rhyfedd na werthuswyd y ddarpariaeth ieithyddol bresennol ar gost-effeithiolrwydd o safbwynt ei gallu i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl. Disgwylir, felly, i AauALl fuddsoddi yn y ddarpariaeth cyfrwng-Cymraeg er mwyn ymateb i'r galw presennol fel yr argymhellir yn nogfen ymgynghorol 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' LlCC (2009).

c) <u>Argymhellion ar gyfer ysgolion unigol sydd yn darparu addysg Gymraeg</u>

Gyda diflaniad y tablau cyngrair a fu'n ffordd o hysbysebu llwyddiant academaidd addysg cyfrwng-Cymraeg a'r ffaith na all AauALl hyrwyddo addysg cyfrwng-Gymraeg ar draul addysg cyfrwng-Saenseg, mae cyfrifoldeb ar benaethiaid cynradd ac uwchradd cyfrwng-Cymraeg i farchnata'u hysgolion. Dylid marchnata llwyddiannau academaidd yr ysgolion (â'u llwyddiannau diwylliannol) yn fwy egnïol yn ogystal ag adroddiadau arolygiadau gan Estyn lle cafodd rhai ysgolion adroddiadau rhagorol yn ddiweddar, gan gynnwys un ysgol Gymraeg uwchradd yn nalgylch yr ymchwil presennol. Pwysleisir bod y cyhoeddisrwydd a roddir i lwyddiannau ysgolion Cymraeg uwchradd yn hanfodol i ddenu disgyblion i'r sector cyfrwng Cymraeg cynradd. Yn ôl tystiolaeth yr ymchwil hwn, ymddengys y gall arolygiad llwyddiannus ysgol gyfun Gymraeg effeithio ar ddewis rhieni o ysgol gynradd. Gan

mai'r ysgolion cynradd cyfrwng-Cymraeg sydd gan amlaf yn bwydo'r ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg, caiff y cynnydd hwn ei drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd yn y tymor hir. Mae'n bwysig, felly, bod llwyddiannau pob ysgol Gymraeg yn cael eu marchnata hyd eithaf gallu y pennaeth a'r llywodraethwyr.

**Diweddglo**

Fel y nodwyd eisoes, seilwyd canlyniadau'r ymchwil hwn ar ymatebion nifer fach o rieni. Gallai'r ymchwil hwn fod yn sail i ymchwil pellach. Gellid holi rhagor o rieni ar draws yr AALl dan sylw neu ymgymryd ag ymchwil mewn AauALl eraill. Gellid holi rhieni mewn ardaloedd lle na ddarperir addysg gynradd cyfrwng-Cymraeg yn 'lleol', neu lle na ddarperir addysg uwchradd cyfrwng-Cymraeg. Ni ellir cyffredinoli na hawlio bod y canlyniadau yn adlewyrchiad o'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar benderfyniad rieni ar draws Cymru gyfan wrth iddynt ddewis cyfrwng addysg gynradd i'w plant. Cyfyngir canlyniadau'r ymchwil i sampl fechan o rieni mewn un ardal ar un adeg yn unig. Er hynny, mae'n ddigon posibl bod y ffactorau a ddylanwadodd ar rieni yn yr achos hwn hefyd yn berthnasol i ddewis llawer o rieni eraill ar draws Cymru. O ganlyniad, gall agweddau ar yr astudiaeth hon fod o ddiddordeb i swyddogion addysg mewn awdurdodau Cymreig eraill yn ogystal â phenaethiaid ysgolion cyfrwng-Cymraeg a swyddogion addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru. Noda Bassey:

*'If studies…are carried out systematically and critically, if they are aimed at the improvement of education, if they are relatable, and if by publication of the findings they extend the boundaries of existing knowledge, then they are valid forms of educational research'* (Bassey,1989: 103).